***Polisi Codi Tal***
***Charging Policy***

***Ysgol Tryfan***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**
***Signed on behalf of the Chair of Governors:***

**Dyddiad Cymeradwyo:** **Gorffennaf 2026**
***Date of Approval:***

**Dyddiad Adolygu:** **Gorffennaf 2028**
***Review Date:***

**1. Rhagymadrodd**

Nid yw'r disgyblion yn talu am yr addysg rydym yn ei ddarparu yn ystod oriau ysgol arferol. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgaredd sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio rhywfaint o hyfforddiant cerddoriaeth ar gyfer rhai unigolion neu grwpiau bychain. Ystyriwyd Canllaw Llywodraeth Cymru ar Godi tal am Weithgareddau wrth greu'r polisi hwn.

**2. Cyfraniadau gwirfoddol**

Pan gaiff gwibdeithiau neu ymweliadau ysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant eu trefnu, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni a gwarcheidwaid gyfrannu tuag at y gost. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os nad ydym yn derbyn cyfraniadau gwirfoddol digonol, gall y byddwn yn gohirio'r wibdaith. Os cynhelir y wibdaith, gall fod plant nad yw eu rhieni neu warcheidwaid wedi cyfrannu, barhau i fynd y wibdaith honno. Nid ydym yn trin y plant hynny'n wahanol i'r gweddill.

Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn ef/hi fynd ar wibdaith ysgol neu gymryd rhan mewn digwyddiad, ond yn amharod i neu heb allu gwneud cyfraniad gwirfoddol, rydym yn caniatáu'r plentyn gymryd rhan lawn yn y wibdaith neu weithgaredd. Weithiau, mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol er mwyn cefnogi'r ymweliad. Mae gan rieni a gwarcheidwaid hawl i wybod sut caiff pob gwibdaith ei chyllido, a rhydd yr ysgol y wybodaeth hon, ar gais rhieni/gwarcheidwaid.

Os oes unrhyw riant yn ei chael yn anodd talu, fe'i gwahoddir i weld y Pennaeth ac fe wneir trefniadau eraill i oresgyn y broblem. Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu neu amharodrwydd i gyfrannu'n wirfoddol.

Rhestrir isod weithgareddau ychwanegol, wedi eu trefnu gan yr ysgol, ble mae'n ofynnol cael cyfraniadau gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid. Gelwir y gweithgareddau hyn yn 'bethau ychwanegol dewisol'. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr:

- ymweliadau ag amgueddfeydd;
- gweithgareddau chwaraeon ble mae angen treuliau cludiant;
- gweithgareddau antur awyr agored;
- ymweliadau â neu gan gwmni theatr;
- digwyddiadau cerddorol.

**3. Ymweliadau preswyl**

Os yw'r ysgol yn trefnu ymweliad preswyl yn ystod oriau ysgol, neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol, ble darperir addysg sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydym yn codi tâl am y treuliau addysg neu dreuliau teithio. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am dâl i gwrdd â chostau bwyd a llety. Os na allwn godi arian digonol trwy'r cyfraniadau gwirfoddol hyn, efallai bydd yn rhaid gohirio'r ymweliad, ac y byddai'n rhaid ymdrin â'r agwedd honno o'r cwricwlwm trwy ddulliau eraill.

**4 . Dysgu Cerddoriaeth**

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu ar gyfer grŵp bychan, gan fod hwn yn weithgaredd cwricwlwm ychwanegol, ac nid yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Caiff y gwersi hyn ar gyfer unigolion neu grŵp bychan eu dysgu gan athrawon cerdd teithiol. Rhoddwn wybodaeth i rieni a gwarcheidwaid ynghylch hyfforddiant cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn ysgol.

**5. Nofio**

Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio ar gyfer pob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2. Cynhelir y rhain yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid ydym yn codi tâl am y gweithgaredd hwn, ond gofynnwn am gyfraniad gwirfoddol gan rieni a gwarcheidwaid i dalu am gludiant. Rydym yn hysbysu'r rhieni

a'r gwarcheidwaid pan gynhelir y gwersi hyn, a gofynnwn am ganiatâd ysgrifenedig rhieni neu warcheidwaid i'w plant gymryd rhan.

**6. Monitro ac adolygu**

Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau.

Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu'r polisi hwn.

Caiff y polisi hwn ei fonitro gan y corff llywodraethol, a chaiff ei adolygu bob dwy flynedd, neu'n amlach na hynny os oes angen.

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: ________________________________________________________**

**Dyddiad: ______________________________**

**1. Introduction**